



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Agor ysgolion mewn tywydd gwael eithafol

Canllawiau i ysgolion

www.cymru.gov.uk



Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth Rhif: 093/2010

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2010



WLGA • CLILC

Agor ysgolion mewn tywydd gwael eithafol

- Cynulleidfa** Penaethiaid ac awdurdodau lleol.
- Trosolwg** Cyngor am yr hyn dylid ei ystyried wrth benderfynu a ddylai ysgol gau neu aros ar agor yn ystod tywydd gwael eithafol.
- Camau i'w cymryd** I benaethiaid ac awdurdodau lleol ystyried y cyngor a roddir yn y ddogfen hon.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid anfon ymholiadau am y ddogfen hon at:
Debra Froud
Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2080 1409
e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk
- Copiau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon i'w weld ar wefan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn unig yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau neu wefan Llywodraethwyr Cymru yn www.llywodraethwrycymru.org.uk/cymraeg
- Dogfen yw hon a gyhoeddwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	3
Cyflwyniad	4
Agor ysgol	6
Cadw ysgol ar agor	8
Ystyriaethau ataliol	10
Atodiad A: Cyfreithiau perthnasol	11
Atodiad B: Aseiad risg generig	12
Atodiad C: Templed aseiad risg cyffredinol	18
Atodiad Ch: Dogfennau cysylltiedig	20

Agor ysgolion mewn tywydd
gwael eithafol
Rhagfyr 2010
Dogfen wybodaeth
Rhif: 093/2010

Rhagair gan y Gweinidog

Mae'n bleser gennym gyhoeddi *Agor ysgolion mewn tywydd gwael eithafol* sy'n rhoi canllawiau ymarferol ar y risgiau mae ysgolion yn eu hwynebu pan fo'n bwrw eira neu'n rhewllyd. Mae yna bosibilrwydd bob gaeaf y bydd eira a rhew yn achosi problemau. Gall tywydd gwael eithafol darfu ar wasanaethau'n eang a thros gyfnod hir. Yn aml, bydd hyn yn effeithio ar ysgolion, a gall fod yn anodd cynnal gwasanaethau addysg.

Rydym wedi cymryd y cam o gyhoeddi'r canllawiau hyn ar y cyd oherwydd gwyddom fod penaethiaid mewn sefyllfa anodd wrth orfod penderfynu a ddylid cadw ysgolion ar agor. Mae'n well gwneud y penderfyniadau hyn yn lleol oherwydd gall amgylchiadau pob ysgol fod yn wahanol. Mae'r tywydd yn gallu newid yn gyflym, a bydd llawer o ffactorau'n effeithio ar unrhyw benderfyniad.

Mae'r ddogfen *Agor ysgolion mewn tywydd gwael eithafol* yn rhoi cyngor ymarferol i benaethiaid ynglŷn â'r hyn i'w ystyried os ydych yn gorfod penderfynu cadw ysgol ar agor dros gyfnodau o dywydd gwael eithafol. Mae'n cynnwys deunydd cyffredinol ar asesu risg y gellir ei addasu i gyd-fynd ag amgylchiadau ysgolion penodol. Mae'r dull wedi'i seilio'n bennaf ar synnwyr cyffredin ac ar fod yn gymesur, gyda'r pwyslais ar y camau gall penaethiaid eu cymryd i gadw ysgolion ar agor.

Rydym yn ffyddiog bydd *Agor ysgolion mewn tywydd gwael eithafol* yn faen prawf defnyddiol ac yn cynnig sicrwydd y bydd gweithredu'n rhesymol ac yn synhwyrol, gan ddilyn egwyddorion cadarn i asesu'r risg, yn caniatáu i benaethiaid bennu'r peryglon a mynd ati'n hyderus i wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer ysgolion.



Leighton Andrews AM
Y Gweinidog dros Blant,
Addysg a Dysgu Gydol Oes



Y Cynghorydd Peter Fox
Llefarydd Addysg
Cymdeithas Llywodraeth
Leol Cymru

Cyflwyniad

Diben y ddogfen hon yw rhoi cyngor i benaethiaid ynglŷn â'r materion i'w hystyried wrth benderfynu a ddylai ysgol gau neu aros ar agor yn ystod tywydd gwael eithafol. Mae'r ddogfen yn cynnwys enghreifftiau o'r materion bydd ysgolion o bosibl yn eu hwynebu ac awgrymiadau am sut i fynd i'r afael â nhw.

Gan ei bod yn ofynnol i benaethiaid wneud asesiadau risg dynamig ar adeg o dywydd gwael eithafol, yn y ddogfen hon rhoddir asesiad risg generig, i ragarfogi penaethiaid ag ymwybyddiaeth fanwl o'r peryglon posibl, a hefyd templed asesiad risg cyffredinol, i gofnodi'r manylion penodol a fydd wedi dylanwadu ar benderfyniad i gau neu agor ysgol unigol.

Mae'r ddogfen wedi'i rhannu'n adrannau i ymdrin â materion sy'n berthnasol i agor ysgol, cadw ysgol ar agor ac ystyriaethau ataliol. Rhoddir canllawiau ar ffurf cwestiynau ac atebion.

At hynny, mae Atodiad A yn rhoi trosolwg o'r safbwyntiau cyfreithiol dylid eu hystyried wrth wneud asesiad a phenderfyniad dynamig. Ni ddylid dibynnu arno, fodd bynnag, yn lle gofyn am gyngor cyfreithiol gan yr awdurdod lleol neu unigolyn cymwys arall.

Mae Atodiad B ac Atodiad C yn rhoi asesiadau risg generig gall penaethiaid eu haddasu. Ceir dolen we i ragor o ganllawiau iechyd a diogelwch a gwefannau defnyddiol yn Atodiad Ch. Dylai unrhyw un sy'n defnyddio'r rhain ymgynghori ag yswiriwr yr ysgol i ganfod beth yw gofynion yr yswiriwr o ran dadansoddiad risg. Dylai cyrff llywodraethu hefyd ystyried gofynion yr yswiriwr os ydyn nhw'n gosod polisi neu ganllawiau i'r pennaeth.

Dylai'r wybodaeth a geir yma gynorthwyo penaethiaid wrth benderfynu a yw'n ddiogel agor ysgol yn ystod tywydd gwael eithafol, neu a ddylai'r ysgol gau. Dylid cofio bod athrawon ac aelodau eraill o'r staff mewn ysgolion yn edrych ar ôl eu dysgwyr yn lle'r rhiant/gofalwr (in loco parentis). Mae hyn yn golygu eu bod nhw wedi'u rhwymo'n gyfreithiol, tra bo'r plant o dan eu rheolaeth a'u gofal, i drin y dysgwyr a chymryd gofal ohonyn nhw yn yr un modd ag y byddai rhiant/gofalwr gofalus. Mae'n amlwg bod y ddyletswydd hon yn berthnasol pan fo'r dysgwyr ar safle'r ysgol. Bydd y ddyletswydd hefyd yn berthnasol pan fo'r dysgwyr yn teithio i'r ysgol ac o'r ysgol ar fws ysgol. Os yw'r dysgwyr yn teithio i'r ysgol ac o'r ysgol ar wasanaeth bws cyffredin (nid bws ysgol), yna nid oes rheswm amlwg pam dylai'r ddyletswydd honno fod yn berthnasol. Fodd bynnag, gall llawer ddibynnu ar yr amgylchiadau penodol.

Er enghraifft, pe bai'r ysgol yn darparu 'hebryngwyr bws' ar wasanaeth bws cyffredin yna mae'n bosibl bydd llys yn barnu bod hynny'n arwydd bod yr awdurdod lleol a/neu'r ysgol wedi derbyn cyfrifoldeb am ofal dros y dysgwyr ar y bws hwnnw. Bydd y ddyletswydd hefyd yn berthnasol pan fo'r dysgwyr ar daith ysgol i ffwrdd o safle'r ysgol.

Mewn achosion lle bydd yn rhaid i ysgolion gau, yn achos dysgwyr Blynnyddoedd 10–13 dylid ystyried pa drefniadau gellir eu gwneud ar gyfer dysgu o bell neu hunan-astudio, er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar ddysgu ar gyfer cyrsiau a arholir.

Agor ysgol

Mae'r penderfyniad i agor ysgol yn ystod tywydd gwael eithafol, neu a oes angen ei chau, yn dibynnu ar y pennaeth yn gwneud asesiad risg dynamig. Ystyr 'dynamig' yw dylid diweddarau'r asesiad risg bob tro mae'r tywydd neu'r amgylchiadau'n newid. Ni fyddai'r asesiad hwn yn cael ei ysgrifennu o angenrheidrwydd, ond ei wneud yn y pen gan ddefnyddio'r meini prawf yn y tabl canlynol er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus.

Cyfnod eithaf cyfyngedig sydd ar gael i wneud asesiad risg dynamig – p'un ai cau ai peidio – a dyma pam mae angen iddo gael ei wneud yn y pen yn hytrach na chael ei ysgrifennu. Fodd bynnag, byddai gwybodaeth ymlaen llaw am yr asesiad risg generig a'i adrannau yn galluogi'r pennaeth i lunio ei asesiad risg cyffredinol ei hun. Dylai'r ddau asesiad neu'r olaf allu cynorthwyo'r pennaeth i wneud y penderfyniad iawn ar y diwrnod.

Ystyriaeth gyntaf	Ystyriaeth(au) eraill
Oes modd cyrraedd adeilad yr ysgol?	Beth yw'r rhagolygon ar gyfer y tywydd yn y tymor hir? Oes unrhyw rybuddion gan y Swyddfa Dywydd? www.metoffice.gov.uk
Oes unrhyw fannau o gwmpas yr ysgol sy'n arbennig o amhosibl neu beryglus teithio drwyddyn nhw ar gyfnodau o dywydd gwael eithafol?	Dylid ystyried mynd i'r ysgol a hefyd o'r ysgol. Yn achos systemau traffig un ffordd, mae'n bosibl bod y ffordd i'r ysgol yn llai serth na'r ffordd o'r ysgol. Mae'n bosibl bod yna fannau ar y daith lle mae'n hysbys y bydd eira/rhew yn achosi i ffyrdd neu reilffyrdd gael eu cau'n gynnar. Gellir dod o hyd i lwybrau eraill cyn tywydd gwael eithafol er mwyn helpu'r teithiwr i benderfynu ar ei lwybr pan fo angen.
Oes modd i gerbydau deithio ar y ffyrdd i mewn i dir yr ysgol?	Oes modd gwella'r ffyrdd i mewn i dir yr ysgol cyn i'r athrawon, bysiau ysgol, cerbydau rhieni/gofalwyr ac ati gyrraedd? Oes modd parcio y tu allan i dir yr ysgol hyd nes y cymerir camau i sicrhau bod modd gyrru i mewn i dir yr ysgol? Os yw'r prif lwybr i gerddwyr, ar dir yr ysgol, yn mynd trwy fannau parcio cerbydau, yna dylid gwahardd cerbydau. Mae'n bosibl bydd angen arwyddion i ddweud hyn.

Ystyriaeth gyntaf	Ystyriaeth(au) eraill
<p>Oes modd cerdded ar hyd y llwybrau i gerddwyr ar dir yr ysgol?</p>	<p>Oes modd clirio'r llwybrau hyn, e.e. halen/graean?</p> <p>Os oes angen, a ellir cyfyngu ar symud i wahanol rannau o'r ysgol, a hynny heb darfu ar neb – gan sicrhau bydd gwaith cynnal a chadw'n canolbwyntio ar lwybrau mynediad cyffredinol?</p> <p>A ellir rhoi blaenoriaeth i lethrau, grisiau neu rampiau, neu oes modd gwahardd defnyddio'r manau hyn? Dylid hefyd osgoi defnyddio grisiau metel y tu allan oni chânt eu trin yn briodol.</p> <p>Os ydyn nhw ar agor, dylai manau parcio cerbydau fod â llwybr i gerddwyr mae modd cerdded ar eu hyd i fynd i'r ysgol.</p>
<p>All y pennaeth gael digon o staff addysgu a/neu oruchwylio i weithredu'n ddiogel?</p>	<p>Gweithredu'n ddiogel fyddai'r pwyslais, nid a fyddai modd dilyn cwricwlwm llawn ac arferol.</p> <p>Beth fyddai trothwy nifer y staff mewn perthynas â'r nifer dysgwyr a ddisgwylir?</p> <p>I ysgolion cynradd, byddai'r dysgwyr yn debyg o fyw'n lleol, ac felly byddai disgwyl i nifer fwy ddod i'r ysgol. Mae'n bosibl bydd gan ysgolion mewn ardaloedd gwledig neu ysgolion uwchradd ddysgwyr sy'n dod o ardal ehangach a byddan nhw'n dibynnu'n fwy ar fysiau ysgol neu drafndiaeth gyhoeddus leol. Felly mae'n bosibl bydd y nifer yn llai – a goruchwylio'n haws.</p>
<p>Ydy'r ysgol yn cael ei gwresogi'n briodol?</p>	<p>Oes digon o danwydd am y diwrnod? Ydy'r system wresogi wedi methu o'r blaen ym misoedd yr hydref neu'r gaeaf – ac a yw'r modd i unioni hyn ar gael yn rhwydd?</p>
<p>Ydy'r systemau dŵr yn gweithio'n briodol? (Lles)</p>	<p>Oes diffygion amlwg ar gyfnodau o dywydd amrywiol yr ydych yn ymwybodol ohonyn nhw?</p> <p>Oes cofnodion ysgrifenedig – i sicrhau fod gwiriadau trefnus yn cael eu gwneud?</p>

Cadw ysgol ar agor

Ystyriaeth gyntaf	Ystyriaeth(au) eraill
<p>A ellir cynnal lefel y gwresogi drwy gydol y diwrnod/wythnos ysgol?</p>	<p>Os oes angen, a fyddai modd codi'r tymheredd isel dros nos heb wneud y system yn llai effeithiol?</p>
<p>Oes modd cadw'r symudiadau rhwng adeiladau'r ysgol i'r lefel lleiaf posib, os oes rhaid mynd y tu allan i symud rhyngddyn nhw?</p>	<p>Os yw nifer y dysgwyr yn fach, a ellir grwpio dosbarthiadau gyda'i gilydd?</p> <p>A ellir clirio a chynnal a chadw'r manau hyn er mwyn lleihau'r cyfyngiadau?</p>
<p>Byddai cyfyngu ar chwarae'r tu allan yn atal yr eira/rhew rhag cael ei gywasgu ac felly mynd yn fwy peryglus.</p>	<p>Os nad yw'r amgylchiadau'n beryglus, efallai bydd yn bosibl chwarae'r tu allan. Fodd bynnag, efallai bydd angen mwy o oruchwyliaeth.</p> <p>A ellid cynnal amserau chwarae neu egwyl gyda gwahanol grwpiau o blant allan ar amserau gwahanol er mwyn sicrhau digon o oruchwyliaeth?</p> <p>Os oes unrhyw eira neu rhew, dylid gwahardd rhedeg.</p>
<p>A ellir gwneud gwaith cynnal a chadw ar dir yr ysgol er mwyn caniatáu agor y diwrnod wedyn?</p>	<p>Dylai llwybrau i gerddwyr gael blaenoriaeth dros fannau parcio i gerbydau, ond yn y tymor hir dylid trin manau parcio ar dir yr ysgol, neu glirio'r eira ohonyn nhw. Dylai pobl sydd wedi parcio ar dir yr ysgol fod yn ymwybodol o'r flaenoriaeth, a dylid dweud wrthyn nhw am gymryd gofal yn y man hwn. Gellid gosod arwyddion i atgoffa'r bobl hyn.</p> <p>Dylai gwaith cynnal a chadw fod yn flaenoriaeth lle mae llwybrau i gerddwyr yn mynd trwy fannau i gerbydau. Neu gellid gosod cyfyngiadau ar gerddwyr neu atal ceir rhag mynd i'r man hwnnw.</p>

Ystyriaeth gyntaf	Ystyriaeth(au) eraill
<p>Monitro'r tywydd yn lleol a thrwy'r cyfryngau (y Swyddfa Dywydd).</p>	<p>Mae'n bosibl bydd awdurdodau lleol yn gallu darparu gwybodaeth ynglŷn â chlirio ffyrdd, gan roi sicrwydd ynglŷn â theithio adref, neu deithio'n ôl y diwrnod wedyn.</p>
<p>Cyfathrebu'n barhaus gyda chwmnïau cludiant i'r ysgol.</p>	<p>Mae'n bosibl bydd angen i fysiau ysgol gyrraedd yn gynharach na'r amser arferol er mwyn mynd â'r dysgwyr adref yn ddiogel ac yn amserol.</p>
<p>Oes yna ddeunyddiau a phersonél cynnal a chadw ar gael i sicrhau gall yr ysgol ddileu a lleihau risg neu ei gadw mewn manau penodol drwy gydol y diwrnod ysgol?</p>	<p>A ellir sicrhau darpariaeth debyg ar gyfer y diwrnod/dyddiau canlynol?</p> <p>Gallai taenu halen/graeon ar lwybrau neu fannau eraill ar ddiwedd y dydd gyfyngu ar y rhew. Gallai hefyd atal unrhyw gwmp eira arall rhag glynu ac ail-rewi.</p> <p>Dylai slwtsh neu ddŵr o eira/rhew sydd wedi dadlaith gael ei glirio cymaint ag sy'n bosibl er mwyn ei atal rhag rhewi eto. Gallai slwtsh wedi rhewi fod yn fwy peryglus na'r cwmp eira cyntaf gan gall yr wyneb fod yn anwastad ac yn fwy llithrig.</p>

Ystyriaethau ataliol

Ystyriaeth gyntaf	Ystyriaeth(au) eraill
Oes yna bolisi ysgrifenedig ar gyfer tywydd gwael eithafol a chau'r ysgol?	Ydy'r polisi'n cael ei gyfleu i'r staff a'r rhieni/gofalwyr?
Dylai fod gan y pennaeth asesiad risg sy'n ystyried risgiau rhagweladwy tywydd gwael eithafol.	Defnyddiwch yr asesiad risg generig yn Atodiad B neu fel canllaw i'r pennaeth greu ei asesiad risg cyffredinol ei hun. Pa fannau sy'n fwy tebygol o gael eu heffeithio nag eraill? Beth yw'r profiad o'r blynyddoedd blaenorol? Sawl dysgwr sy'n dibynnu ar gludiant i'r ysgol?
Oes yna system i gyfathrebu gyda gofalwyr, staff cynnal a chadw, athrawon a staff goruchwylio eraill i ganfod sut bydden nhw'n dod i'r ysgol ar gyfnod o dywydd gwael eithafol?	Dylai'r pennaeth wybod ble mae ei staff a gallu cyfathrebu gyda nhw i weld a fyddan nhw'n dod i'r ysgol.
Oes rhai mannau yn yr ysgol lle fyddai dŵr, eira neu rhew yn casglu yn fwy nag eraill?	Os na ellir cymryd camau i atal dŵr, eira neu rhew rhag casglu, a ellir osgoi'r mannau hyn heb effeithio ar agor yr ysgol?
Ydy'r stociau halen/graeon yn ddigonol ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn a'r tywydd a ragwelir?	Pa mor hawdd yw hi i archebu rhagor o halen/graeon? Oes yna gyfyngiadau ar ddyraniadau ac oes modd paratoi unrhyw waith papur ymlaen llaw ar gyfer archebu rhagor? Oes cyflenwyr halen/graeon eraill gerllaw?
Dylai fod modd i bobl sychu dŵr, eira neu rhew o'u hesgidiau ac ati wrth ymyl y mynedfeydd.	Oes digon o fatiau a mopiau? Oes trefniadau clir a dealladwy ar gyfer cadw mynedfeydd mewn cyflwr da?

Agor ysgolion mewn tywydd gwael eithafol

Rhagfyr 2010

Dogfen wybodaeth

Rhif: 093/2010

Atodiad A: Cyfreithiau perthnasol

Yn rhinwedd Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000 mae'r pennaeth yn gyfrifol am drefnu a rheoli safleoedd ysgol. Cyfrifoldeb y pennaeth yw penderfyniadau i agor neu gau'r ysgol mewn tywydd gwael eithafol, er gall y pennaeth ddewis ymgynghori â'r awdurdod lleol a chadeirydd y llywodraethwyr cyn gwneud penderfyniad. Y rhesymeg dros y polisi hwn yw mai'r pennaeth yw'r uwch reolwr yn y fan a'r lle ac felly yr unigolyn gorau i wneud penderfyniad, am ei fod mewn sefyllfa well na gwneuthurwr penderfyniadau sy'n bell i ffwrdd.

Mae gan awdurdodau lleol hefyd bwerau i gau ysgolion yn rhinwedd Rheoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol 2008 ac adran 29(5) o Ddeddf Addysg 2002. Caiff awdurdodau lleol gyfarwyddo ysgolion (ac eithrio ysgolion sefydledig, ysgolion arbennig sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir) i gau ar sail diogelwch. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn drech na barn y pennaeth. Fodd bynnag, ni all awdurdodau lleol ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ysgolion aros ar agor nac agor.

Ni chaniateir i awdurdodau lleol gyfarwyddo ysgolion sefydledig, ysgolion arbennig sefydledig nac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir i gau. Fodd bynnag, rhaid iddyn nhw gydymffurfio â pholisïau'r corff llywodraethu ar iechyd a diogelwch, a gweithredu'r polisïau hynny. Dyletswydd y corff llywodraethu yw gwneud asesiad risg a sefydlu trefniadau i reoli iechyd a diogelwch mewn ysgolion o'r fath. Yn achos ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am wneud hyn.

O ran tymheredd adeilad ysgol, yn rhinwedd Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999 (Cylchlythyr 15/99), rhaid cadw gwahanol rannau'r adeilad ar y tymhereddau canlynol pan fo'r tymheredd y tu allan yn -1°C :

- mewn man lle mae lefel gweithgarwch corfforol is na'r arfer (e.e. ystafell cleifion) dylid cadw tymheredd yr amgylchedd yn 21°C
- mewn ystafell ddosbarth lle mae lefel gweithgarwch corfforol arferol cysylltiedig ag addysgu, astudio preifat neu arholiadau, dylid cadw tymheredd yr amgylchedd yn 18°C
- mewn man lle mae lefel gweithgarwch corfforol uwch na'r arfer (e.e. campfa ysgol) dylid cadw tymheredd yr amgylchedd yn 15°C .

Atodiad B: Asesiad risg generig

Asesiad risg generig: tywydd gwael eithafol – eira/rhew

Diben yr asesiad risg generig yw rhoi sylfaen wybodaeth i benaethiaid er mwyn iddyn nhw lunio eu hasesiad risg eu hunain. Gall hefyd helpu penaethiaid wrth wneud asesiadau risg dynamig ar adegau o dywydd gwael eithafol.

Dim ond y gweithgareddau a/neu beryglon bras sy'n gysylltiedig â thywydd gwael eithafol – eira/rhew – mae'r asesiad risg generig yn ymdrin â nhw. Felly, mae'n bosibl bod yna ffactorau sy'n benodol i ysgolion unigol nad ydyn nhw wedi cael eu hystyried.

Dylid nodi, oherwydd ei natur gyffredinol, nad yw'n cynnwys y 'mesurau rheoli sy'n bodoli' gan byddai'r rhain yn wahanol o un ysgol i'r llall. Fodd bynnag, mae 'Mesurau rheoli gofynnol' wedi cael eu rhoi, a fyddai'n cyd-fynd â'r gweithgarwch a'r perygl cyffredinol yn yr asesiad generig. Yn ogystal â'r 'Mesurau rheoli gofynnol', mae 'Ystyriaethau pellach' wedi cael eu rhoi er cyngor, ond maen nhw'n gyfyngedig ac yn berthnasol i'r gweithgareddau a'r peryglon yn yr asesiad risg generig hwn yn unig. Mae'n bosibl bydd penaethiaid hefyd yn cael cyngor gan yr awdurdod lleol neu'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch.

Oherwydd ei natur gyffredinol, nid oes unrhyw werthoedd gwerthuso yn yr asesiad risg generig ynghylch difrifoldeb yr anafiadau a allai ddigwydd neu'r tebygolrwydd o weld damweiniau.

Dylai'r asesiad risg generig hwn a'r wybodaeth a roddir yn y prif ganllawiau roi i'r pennaeth ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig, a rhywfaint o fodd i weld pa mor hawdd fydd eu rheoli. Dylai'r ymwybyddiaeth hon hefyd gyfrannu at waith y pennaeth wrth greu ei asesiad risg cyffredinol ysgrifenedig ei hun, wedi'i seilio ar fanylion penodol lleoliad yr ysgol, maint y mater dan sylw a pha mor hawdd yw ei reoli.

Gweithgaredd	Perygl	Pobl a all fod mewn perygl	Mesurau rheoli gofynnol	Ystyriaethau pellach
Mynd i'r ysgol.	Teithio'n beryglus mewn tywydd gwael eithafol.	Pennaeth, athrawon, staff gofalu a/neu gynnal a chadw, dysgwyr.	Y pennaeth yn monitro'r tywydd/rhybuddion www.metoffice.gov.uk Ni ddylid ystyried unrhyw deithio os rhoddir rhybudd am dywydd gwael eithafol a chyngor i beidio â theithio oni fo'r daith yn hanfodol.	Lleoliad gwledig yr ysgol a/neu'r rhan fwyaf o bersonél yr ysgol. Mae'n bosibl na fydd rhybuddion cenedlaethol yn gywir yn lleol, felly gall darllediadau cyfryngau lleol fod o gymorth hefyd.
Teithio trwy fannau lle disgwylir cau ffyrdd neu fannau â llethrau serth.	Teithio'n beryglus mewn tywydd gwael eithafol.	Pennaeth, athrawon, staff gofalu a/neu gynnal a chadw.	Cynllunio ymlaen llaw gan y staff mewn perthynas â ffyrdd eraill o gyrraedd yr ysgol ar hyd priffyrdd neu reilffyrdd.	Mae'n rhesymol disgwyl i bobl gerdded, pan na all ceir na cherbydau eraill fynd yr holl ffordd i'r ysgol. Y pennaeth i ystyried beth sy'n rhesymol ar sail y lleoliad a'r staff.
Y brif fynedfa i dir yr ysgol.	Nid oes modd mynd trwy'r fynedfa.	Pennaeth, athrawon, staff gofalu a/neu gynnal a chadw.	Parcio ceir y tu allan i'r ysgol hyd nes y gellir ei chlirio. Os nad oes modd mynd drwyddi ar droed, asesu ffyrdd rhesymol eraill o fynd i mewn i'r ysgol.	Arwyddion ar y brif fynedfa neu fynedfeydd eraill os gwaherddir eu defnyddio oherwydd rhew neu rwystr arall.

Gweithgaredd	Perygl	Pobl a all fod mewn perygl	Mesurau rheoli gofynnol	Ystyriaethau pellach
Y brif fynedfa i dir yr ysgol.	Perygl mawr o lithro wrth y fynedfa.	Pennaeth, athrawon, staff gofalu a/neu gynnal a chadw, dysgwyr, rhieni/gofalwyr ac ymwelwyr.	Clirio'r perygl llithro, oni ellir cael hyd i ffordd arall i mewn. Gellir rhoi blaenoriaeth i ffyrdd eraill i mewn a chau'r brif fynedfa. Mae'n bosibl bydd halen/graean yn ddigon, ond efallai bydd angen gwaith llaw hefyd i glirio eira/rhew os mai'r brif fynedfa yw'r unig fynedfa.	Os yw'r fynedfa'n cael ei defnyddio gan gerbydau a cherddwyr, mae'n bosibl bydd taenu halen/graean yn cael blaenoriaeth. Mae'n bosibl gwaherddir ceir rhag dod i mewn er mwyn rhoi blaenoriaeth i gerddwyr ac osgoi risg.
Cael aelodau staff priodol i agor yr ysgol.	Goruchwyliaeth annigonol.	Athrawon a dysgwyr.	<p>Ffordd o gyfathrebu gyda staff yr ysgol er mwyn canfod a fyddan nhw'n dod i'r ysgol ar y diwrnod o dywydd gwael eithafol.</p> <p>Ffordd o gyfathrebu gyda chwmni bws yr ysgol, yr awdurdod lleol a gweithredwyr bysiau lleol er mwyn canfod pa ffyrdd sydd i ddysgwyr gyrraedd yr ysgol.</p> <p>Y pennaeth i ganfod beth fyddai goruchwyliaeth briodol – trwy asesiad dynamig ar y diwrnod o dywydd gwael eithafol.</p>	<p>Dylai'r pwyslais fod ar sut i weithredu'n ddiogel, nid ar ddilyn cwricwlwm llawn ac arferol.</p> <p>Mae dysgwyr ysgolion cynradd yn debyg o fyw'n lleol, ac felly byddai disgwyl i nifer fwy ddod i'r ysgol. Mae gan ysgolion mewn ardaloedd gwledig neu ysgolion uwchradd ddysgwyr sy'n dod o ardal ehangach a gallan nhw fod yn fwy dibynnol ar fysiau ysgol neu drafnidiaeth gyhoeddus, felly mae'n bosibl bydd y nifer yn llai – a goruchwyllo'n haws.</p>

Agor ysgolion mewn tywydd gwael eithafol
Rhagfyr 2010
Dogfen wybodaeth
Rhif: 093/2010

Gweithgaredd	Perygl	Pobl a all fod mewn perygl	Mesurau rheoli gofynnol	Ystyriaethau pellach
Mynediad i adeiladau'r ysgol.	Llithro, baglu neu gwympto.	Pennaeth, athrawon, staff gofalu a/neu gynnal a chadw, contractwyr, rhieni/gofalwyr a dysgwyr.	<p>Gellid taenu halen/graean pan fo modd rhagweld eira neu rhew.</p> <p>Taenu halen/graean ar lwybrau i gerddwyr a chlrrio eira lle bo hynny'n rhesymol.</p> <p>Pryd bynnag y bo'n bosibl, ni ddylid defnyddio llethrau, grisiau, rampiau ac ati. Fodd bynnag, os cânt eu trin yn briodol ni ddylai'r llwybrau cerddwyr hyn fod yn wahanol i lwybr sydd wedi cael ei drin. Y pennaeth i benderfynu pa lwybrau dylid eu defnyddio a'u trin yn gyntaf.</p>	<p>At ei gilydd mae tywydd gwael eithafol yn gallu cael ei ragweld, er gallai'r eira/rhew a ddisgwylir fod yn waeth neu'n llai na'r disgwyl, gan ddibynnu ar ddaearyddiaeth yr ardal.</p> <p>Os yw stoc yr ysgol o halen/graean yn isel, yna gellid trin y prif lwybrau yn unig. Gellid gosod arwyddion ar y llwybrau eraill i atal eu defnyddio.</p> <p>Mae'n bosibl rhoddir llai o flaenoriaeth i drin manau mewnol megis cyrtiau, iardiau neu rai llwybrau rhwng adeiladau.</p>

Gweithgaredd	Perygl	Pobl a all fod mewn perygl	Mesurau rheoli gofynnol	Ystyriaethau pellach
Cyfleusterau gwresogi a lles.	Oerfel – o dan y lefel a ganiateir ar gyfer gwaith. Dim dŵr yfed nac i'r ystafelloedd ymolchi.	Pennaeth, athrawon, staff gofalu a/neu gynnal a chadw, contractwyr a dysgwyr.	<p>Gwresogi isel di-baid drwy gydol cyfnodau o dywydd oer yr ydych yn ymwybodol ohonyn nhw, er mwyn atal pibellau rhag rhewi.</p> <p>Cynnal a chadw systemau dŵr, er enghraifft trwsio gollyngiadau a phibellau sy'n diferu ar unwaith.</p> <p>Gwiriadau rheolaidd gan y staff cynnal a chadw i sicrhau bod y systemau gwresogi a dŵr yn gweithio'n dda.</p>	Os na ellir gwresogi adeiladau'r ysgol na darparu dŵr yfed na dŵr i'r ystafelloedd ymolchi yn ystod oriau ysgol, yna mae'n bosibl bydd yn rhaid i'r ysgol gau.
Cadw'r ysgol ar agor.	Dysgwyr yn llithro, baglu neu gwympto yn ystod amser egwyl.	Dysgwyr.	<p>Peidio â defnyddio iardiau a mannau eraill y tu allan, pan nad yw'n hawdd gwaredu neu leihau eira/rhew.</p> <p>Os oes mannau y tu allan sydd heb eira/rhew, yn gyfan gwbl neu gan fwyaf, gellir cynnal amser chwarae/egwyl dan oruchwyliaeth. Dylai'r lefel goruchwyliaeth fod yn uwch a dylid gwahardd rhedeg. Dylid osgoi a rheoli unrhyw ddarnau o eira/rhew sydd ar ôl. Dylid rhoi gwybod i'r dysgwyr am y cyfyngiadau.</p>	<p>Gellid cau mannau penodol i ffwrdd a'u rheoli trwy daenu halen/ graean cyn caniatáu eu defnyddio. Gall eira/rhew sydd wedi dadlaith rewi eto, felly mae'n bosibl bydd angen rhoi sylw iddo eto.</p> <p>Os yw lle ar yr iard yn gyfyngedig gellid cynnal egwyliau gyda gwahanol grwpiau o blant allan ar amserau gwahanol. Fodd bynnag, a ellid goruchwylio'r system hon yn briodol?</p>

Agor ysgolion mewn tywydd gwael eithafol
Rhagfyr 2010
Dogfen wybodaeth
Rhif: 093/2010

Gweithgaredd	Perygl	Pobl a all fod mewn perygl	Mesurau rheoli gofynnol	Ystyriaethau pellach
Cadw'r ysgol ar agor.	Rhagor o eira neu rhew, neu gwypmp blaenorol yn rhewi.	Pennaeth, athrawon, staff gofalu a/neu gynnal a chadw, a dysgwyr.	<p>Y pennaeth i fonitro'r tywydd trwy'r Swyddfa Dywydd a'r cyfryngau lleol. Gellir hefyd cael gwybodaeth oddi wrth yr awdurdod lleol.</p> <p>Gellid defnyddio rhagor o halen/graean ar lwybrau a mannau eraill i leihau'r risg y diwrnod wedyn.</p> <p>Gellid brwsio dŵr wyneb i ddraeniau i atal rhew rhag ffurfio dros nos.</p>	Gellid trefnu rhagor o halen/graean a/neu wneud gwaith cynnal a chadw ar systemau dŵr neu wresogi i sicrhau byddan nhw'n parhau i weithio'n effeithiol.

Atodiad C: Templed asesiad risg cyffredinol

Asesiad risg cyffredinol: tywydd gwael eithafol – eira/rhew

Ystyriwch y gweithgareddau canlynol er mwyn cwblhau'ch asesiad risg – gan ddefnyddio'r asesiad risg generig a'r canllawiau cysylltiedig. Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol ac mae'n bosibl bydd angen ychwanegu rhagor o resi ar gyfer gweithgareddau eraill.

Mae'r asesiad risg cyffredinol yn werthusiad ymlaen llaw o'r hyn a ddylai, neu a allai, fodoli i sicrhau bydd ysgol yn agor mewn tywydd gwael eithafol. Ydy'r mesurau rheoli'n bodoli a beth arall ellir ei wneud?

Gweithgaredd	Perygl	Pobl a all fod mewn perygl	Mesurau rheoli sy'n bodoli	Ystyriaethau eraill ar gyfer gweithredu
Teithio/cludiant i'r ysgol				
Mynediad o fewn i dir yr ysgol				
Goruchwyllo gweithgareddau				
Cyfleusterau gwresogi a lles				
Cynnal a chadw safle'r ysgol				

Agor ysgolion mewn tywydd
gwael eithafol
Rhagfyr 2010
Dogfen wybodaeth
Rhif: 093/2010

Atodiad Ch: Dogfennau cysylltiedig

Gellir cael rhagor o wybodaeth am faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, gan gynnwys canllawiau ar ymweliadau addysgol yn www.cymru.gov.uk/iechydadiogelwch

Gwefannau defnyddiol eraill yn cynnwys:

- Y Swyddfa Dywydd www.metoffice.gov.uk
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch www.hse.gov.uk
- Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau www.rospa.com